



www.lennatur.com

Bwletin Llên Natur 21

Golwg newydd ar y byd o'n cwmpas

Tachwedd 2009



Llun hydrefol gan Doreen Hamilton, o Fôn

Dim ond yng Nghymru fach...

Fel yr hogia sy'n tindroi o gwmpas y bys-stop ar ddiwrnod glawog a'u ffelt-tips yn boeth ac yn barod yn eu dwylo, felly hefyd criw diflas o ysbeilwyr o'r North a fu'n ymochel rhag y glaw didrugaredd fil a hanner o flynyddoedd yn ôl ym meddrod cyn-hanesyddol Maese Howe ar un o Ynysoedd Erch yr Alban. Yno mae olion graffiti mewn ysgrifen rwnig gan un ohonynt wedi eu naddu ar un o gerrig mewnol y gladdfa. Perwyl y cofnod oedd bod Grunhilde - rhyw Swedes landeg - yn ddipyn o bishyn a bod y milwr ieuanc yn dyheu am ei gweld yn fuan!

Wrth i mi sefyll a'm trwyn at y wal o flaen y porslen yn un o lefydd chwech Gwalia Wen, gwelais y graffito canlynol gan un o feibion yr ardal: "Ynys Môn, lle am ddrw a cwrw" oedd y neges, ond yn ddiweddarach roedd cyfaill arall wedi cywiro "cwrw" am "chwrw", gan ychwanegu'r uwch-nodyn "twpsyn!". Mae graffiti ymhob man heddiw, yn anharddu yn ôl rhai, yn datgelu dyheadau mwyaf gwaelodol Dyn yn ôl eraill. Os oes mwy o graffiti nag erioed, nid cynnydd yn awydd yr hogiau i fynegi eu hunain

sydd yn gyfrifol, ond holl-bresenoldeb y *felt-tip*.

Cariad, nwyd, cenfigen, hiliaeth, rhagfarn, balchder at fro neu gasineb ati, neu uchelgais diniwed i fynd i'r môr - mae'r cwbl i'w cael mewn graffiti. Ond cywiro iaith? Dim ond yng Nghymru! Mae gen i enghraifft arall. Yn neupen fy mhentref i, fel ymhob pentref, y mae arwydd yn datgan yr enw - Waunfawr yn fy achos i. Rhai misoedd yn ôl aeth rhywun - nid myfi rwy'n prysuro i ddweud - i'r drafferth o "gywiro'r" arwydd trwy ychwanegu'r llythyren G i'r enw, yn daclus, mewn pensil, ac ail-enwi ein pentref am y tro fel Gwaunfawr. Hoffwn feddwl mai ceisio ein hatgoffa, ni'r trigolion (fel petasem angen cael ein hatgoffa) ein bod yn byw ar "waun" anial, llwm, yn agored i holl lawogydd yr Iwerydd, ac i'r pedwar gwynt.

Fe'm hatgoffwyd gan hyn o sylw'r ddiweddar Mary Vaughan Jones. Roedd y waun hon, sef comin Cefn Du cyn y Deddfau Cau, yn ymestyn ddwy filltir ymhellach i lawr am Gaemarfon nag ydyw heddiw, mor bell yn wir, meddai, a fferm Hafod y Rhug Isaf. Er i'r tir yma ers tro byd gael ei droi yn gaeau o fath, caf bleser mawr serch hynny, wrth ymlwybro ar hyd y lonydd cefn o gwmpas y pentref, canfod ac adnabod pob math o lwyni yn y cloddiau a berthynai ar un adeg i gomin mawr Cefn Du. Beth ond gweddillion y drefn honno yw coed llus yn tyfu ymhell o'r gweundir gruglog fel ag y mae heddiw, neu eithin mân lle disgwyliid eithin Ffrengig. Yn wir mewn un neu ddau o lecynnau mae'r gorhelygen, mwy cyfarwydd heddiw yn y morfeydd cyfagos, yn tystio i amrywiaeth llystyfiant y waun hon ar un adeg. Yn y cloddiau mae'r hen hanesion yn byw - ac yn fyw.

Chwarae teg i'r graffito-ramadegydd, ond roedd o, neu hi, yn anghywir. Cywirach fyddai iddo ychwanegu nid G ond Y, i wneud "Y Waunfawr" (fel Y Bala, Y Bontnewydd ac yn y blaen). Unrhyw hen waun yw gwaunfawr, ond ein waun fawr NI, yn emau ac yn wymon yn gymysg, yw'r Waun Fawr a'i bannod. Diystyr yw'r enw fel ag y mae. Gair i gall chwi sydd mewn grym...[Gweler tudalen 3 am luniau].

Addasiad o erthygl yn Y Cymro gan DB




llus yn eu blodau

Y Ffordd i Benmorfa




Prin y gallwn ddimad ei ôl ar y graig ond hen arwydd i Benmorfa ydi hwn wedi ei osod rhyw oes cyn codi m o r g l a w d d M a d d o c k s

ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y pryd hwnnw roedd siroedd Meirionnydd a Chaernarfon wedi eu gwahanu i bob pwrpas gan ucheldir a chan morfa anferth



aber y Glaslyn, sef y Traeth Mawr. Am le godidog fyddai'r aber hwnnw cyn ei ddifetha fel cynefin naturiol gan gob Maddocks, a'r ffordd newydd (melyn ar y map).

Meddyliwch gorfod mynd ar hyd yr hen ffordd (coch ar y map) o Faentwrog [1] i Benmorfa [6] trwy Rhodfa [2], Llanfrothen [3], Aberglaslyn [4], Prenteg [5]. Mae lleoliad yr arwyddbost wedi ei farcio a seren ar y map ac i'w weld heddiw yn y wal ar ymyl y ffordd rhwng y fynedfa i orsaf Tan y Bwlch a Llyn Mair.



L l ê n y r H i n

O'r Dyddiadur Hydref Tach 1883

Hyd 1883: *there was a harvest thanksgiving in the Wesleyan chapel and the minister was preaching when a man rushed in shouting the flood, the flood..Windsor esplanade destroyed (Caerdydd)*

12 Hydref 1883 *whooping cough still very bad Aber school*

26 Hydref 1883 *children of the highest standards employed in potato fields. Lower standards detained by whooping cough*

5 Tachwedd 1883...*the glorious climate of North Wales - and especially of Llandudno - in the month of November, when dense fogs are so prevalent in Manchester and elsewhere... since I came here on Monday the 5th instant I have taken some four or five hours' exercise daily in the open air, and so far have had no occasion to use my umbrella. My bedroom [yn yr Hydropathic Establishment] faces the east, and each morning the sun has been shining most brilliantly through the window whilst dressing. Letters received by myself and others give information of dense fogs in various parts of Lancashire; here all has been bright, clear and dry. Two days ago I passed a garden under the Great Orme, in which I saw in full flower roses, geraniums, fuchsias, calceolarias, lobelia, auriculas, and others I cannot name (llythyr William Knowles, yn y Manchester Examiner & Times, Nov 19, 1883)*

23 Tachwedd 1883 *whooping cough and very stormy weather*

Titw Potel

All birds except Bottle Tit are 10-14 days later this year than last... Dyddiadur di-enw o Tywyn, Abergele 1922-1942 5 Mai 1927

Ai cyfeirio at arfer y titw glas i agor poteli llefrith y mae'r enw titw potel gan y dyddiadurwr yn fan hyn? Oedd yna boteli llefrith yn 1927? 'Mond gofyn! Ydi'r titw yn gwneud hyn o hyd chwi bobl poteli llefrith gwyr?

Aber Dysynni ddoe (chwith) a heddiw (isod).

Cafwyd y llun ar y chwith o eglwys Cadfan Sant yn nhre Tywyn - dyluniad wedi ei dynnu o stryd Aberdâr yn y dref (ydi honno yno o hyd?) Sylwch ar y goleudwr (saeth) ar y mynydd uwchben Tonfannau a'r patrwm o gaeau bach nad ydynt yno bellach (isod). Hefyd yn eglwys Tywyn mae Carreg Cadfan (de) a'i harysgrif yn cael ei gyfrif fel yr enghraifft gynharaf o'r iaith Gymraeg.



Yr uchelwydd ym Môn yn ôl Huw Davies (awdur Welsh Botany 1813)

His [Hugh Davies, Rheithor Abergwyngregyn 1738-1821] scientific integrity is indicated not only by his high standing as a mycologist in Sowerby's estimation, but by his scrupulous treatment of his text. His generation had perhaps an undue veneration for antiquity...and it was with an eye to Caesar, Tacitus and the bloody events on the Menai in 60-61A.D. that Davies included *Viscum album* [uchelwydd] in the Anglesey Flora, because "We can scarcely suppose that the Druids had fixed upon as a favourite residence a spot that did not produce this highly venerated plant". However, he made it clear he had not seen it there in his own day. Nearly a century later Griffith recorded it only on apple in gardens at Beaumaris and Menai Bridge. As it was not there in 1813 the inference is of recent introduction. Baseless fantasies about Druids have been the bane of Celtic studies in Britain from Stukeley [1687-1765: un o sylfaenwyr archeoleg maes] to the Eisteddfodau. Today we may see more reason to associate them with *Fistulina* than *Viscum* but that does not appear in Davies' list [mae'n rhaid fod Dennis yn meddwl ei fod yn od nad oedd Davies wedi cofnodi uchelwydd ar dderw ym Môn].



Dennis, RWG The "Fungi" of Welsh Botany, H. Davies 1813

Cywain uchelwydd Môn â chryman aur oddiar dderw a wnaeth y Derwyddon yn ôl yr "hanes". Pwy welodd uchelwydd erioed ar dderw. Wel dyma i chi beth (llun chwith uchod) yn tyfu ar dderw yn Ffrainc yn 2008. Dyma'r *Fistulina* (isod) y cyfeiriodd Dennis ato. Ffwng tafod yr ych neu *beef steak fungus* ydyw. Fe'i tynnwyd yn Abergwyngregyn ym Medi 1988. Caiff ei werthfawrogi gan seiri am ei fod yn gadael lliw coch ar y pren ond nid oes posib ei ragweld nes i'r ffrwyth-gorff ymddangos pan fydd y pren erbyn hynny yn ddiwerth.





L l ê n y P e t h a u B y w

Graffiti: celf y "Fi-fawr"



Yn gam neu'n gymwys mae graffiti yn rhan o'n hamgylchfyd erbyn hyn - hwyrach y buont erioed. Mae



graffiti yn fynegiant o holl ddyheadau dyn - ei genfigen, ei gariad, ei ragfam, ei hunan-fodlonrwydd. Ond ble arall ond yng Nghymru y cewch chi'r Graffiti Gramadegol, lle mae'r graffitydd yn ceisio cywiro gramadeg rhywun



arall!! [Am fwy, gweler y dudalen flaen]

Locustiaid ym Mhenfro

"It is in length from head to the tips of its wings 3 inches and a quarter, of a reddish colour all over; eyes are very prominent and large, the antennae about the thickness of a hog's bristle...the hind legs are very beautiful, the thighs hexangular, the shanks a lively red, wings about 3 inches long, garnished with reticulated black spots".

Disgrifiad Edward Llwyd pan welodd bla o locustiaid ym Mathri, Sir Benfro ar 20 Hydref 1693. Tynnodd luniau ohonynt gan eu disgrifio i'r Gymdeithas Frenhinol. Dyma'r unig dro i locustiaid gael ei cofnodi yn y Sir. Allan o erthygl am Edward Llwyd mewm papur lleol yn 1994

John Lloyd Jones, Penfro

Oes yna gofnodion eraill o locustiaid yng Nghymru - 'stalwm neu heddiw? (Gol.)


Taith daeareg Cymdeithas Edward Llwyd

Ray Roberts, un o ddaearegwyr Cyngor Cefn Gwlad yn



dangos colofn o Serpenterite o flaen un o siopau tref Caernarfon. G w g l w c h Serpenterite i wybod mwy.

Soniodd rhywun o'r Blaenau mai eu gair am y smotiau llwydwyn ar lechi yw "llechi cachu iar". Dyma'r esboniad gwyddonol gan Ray: "*Reduction spots* oedd y llechen cachu iar, neu "smotiau rhydwytho". Adwaith cemegol yw rhain o amgylch dam o rhywbeth organic neu mineral yn y gwaddod (*Reduction* yw newid yn y teip o haearn, o ferrous (fe2) i ferric(fe3)). Mae'n gallu digwydd o amgylch un dam bach, ble mae'n arwain at y smotiau, neu o amgylch haenan ble geir y sribedi. Pan mae'n nhw'n cael ei greu mae'r smotiau yn grwn, ond wrth i'r cerrig llaid cael eu gwasgu i greu llechen mae'n nhw'n newid i ffurf elipsoid. Mae hyn yn galluogi daearegwyr weithio allan maint a



Smotiau rhydwytho ar lechi Maes Caernarfon o dan draed digybllion Edward Llwyd!

chyferiad y straen.

<http://www.see.leeds.ac.uk/structure/strain/straintitle.html>


Pry'r Gannwyll

Ni ddychwel drwy'r tawelwch - o olau'r

Aelwyd i'r tywyllwch;
Herio fflam â chorff o lwch
Oedd ei farwol ddfyrrwch.

John Penry Jones

Diolch i Gerallt Pennant am dynnu sylw at yr englyn
Gweler Bwletin Rhif 7 tudalen 2 hefyd



Llun agos o batrwm gwyfyn y fforch arian gan Aled Jones

Drifl yr ych



Gelwir gwe fel hyn yn 'Drifl yr ych' pan mae yn gorchuddio'r cae i gyd.

Sylw gan Ieuan Roberts, Edern, Llŷn yn wreiddiol. Llun gan Alun Williams 'drifl yr ych, tywydd sych'

Twm Elias

Crymanbigau Rhys Jones

Es i drosodd i Enlli dydd Gwener 18 Medi 2009 ar ôl i *paddyfield warbler* gael ei ddarganfod yno nos lau. Doeddwn i ddim yn obeithiol iawn gan fod yr aderyn ar ffensus ar dir agored - dim y math o gynefin fysa yn ei berswadio i aros, ond mi oedd yn esgus i ymweld. Doedd dim son am y telor ond wrth edrych allan i'r tir mawr dros y swnt mi welais 3 aderyn tywyll yn y gwydra. Bilidowcars od meddwn - roeddent yn hedfan yn syth amdana i. Yn edrych yn rhy dennau a'r adenydd yn fflapio mewn ffordd od. Wrth i mi ddechrau amau beth oeddau nhw daeth saith arall i'r golwg ac roedd yn amlwg wedyn o weld ei siap yn well beth oeddau nhw! Wedi cyrraedd yr ynys dyma nhw yn cylchdroi a chodi yn uchel yn sydyn cyn bwrw ymlaen i'r de dros y goleudy. Record gynta i Enlli hefyd. Gwelwyd naw ohonynt rhyw deirawr yn ddiweddarch wrth Abertiefi a wedyn Trefdraeth. Roedd 12 wedi eu gweld ar aber yr Alaw ddydd lau yn ôl y son. Mi oedd yna fewnllifiad bychan ohonynt rai wythnosau yn ôl gyda haid o 25 yn ne Cymru yn rhywle.



Aderyn y de a'r dwyrain yw'r crymanbig du (neu *glossy ibis*). Ei nythfa agosaf yw de Ffrainc. Ai arwydd o newid hinsawdd yw eu hymddangosiad yma.

